

Roedd cyfarfod ddoe o'r Grŵp Cyflenwi Strategol Adnoddau Dynol yn wych. Er nad oedd llawer yn bresennol, gwnaed mwy na iawn am hynny mewn egni ac awydd gwych gan ein galluogi i wneud cynnydd sylweddol. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cyfraniad, yn neilltuol i Siobhan a deithiodd o Ynys Môn a Karen a groesawodd y digwyddiad i'w swyddfa. Rwy'n gwirioneddol fwynhau gweithio gyda phawb ohonoch ac yn cael llawer o fudd o'n sgysiau bob amser.

Ar gyfer y rhai ohonoch na allai ddod draw y tro hwn, credaf y bydd nodiadau'r cyfarfod o ddiddordeb i chi ar ôl iddynt gael eu cwblhau a'u cylchredeg.

I grynhoi, fe wnaethom adeiladu ar y trafodaethau a gawsom yn ein cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr a rhoi ystyriaeth bellach i rôl Adnoddau Dynol yn trawsnewid Tai yng Nghymru.

Fe wnaethom gytuno fod gan bob cymdeithas tai ei hunaniaeth, diwylliant a'i ffordd ei hun o wneud pethau ac os nad yw hyn wedi torri, does dim angen ei drwsio. Fodd bynnag, credaf y gallwn fod yn gryfach a chyflawni mwy os oes gennym ddiben cyffredin, yn rhannu ein cryfderau ac yn cydweithio i arloesi. I roi hyn mewn cyd-destun, fe wnaethom ystyried y Fyddin Brydeinig lle mae gan bob milwr ymdeimlad o berthyn i'w catrawd eu hunain a phob milwr yn y swydd i wasanaethu'r Frenhines a'r wlad.

Fe wnaethom gytuno mai canlyniadau ein gwaith dros y 12 mis nesaf fyddai:

1. Diwylliant byddwn yn penderfynu beth sy'n ein gwneud yn wahanol (Tai Cymru) i eraill - y diben, gwerthoedd, credoau a ffyrdd o fyw a rannwn.
2. Brand ar ôl diffinio ein diwylliant (pwy ydym), byddwn yn sefydlu hunaniaeth glir a datblygu ffordd i gyflwyno hyn, y gellir ei defnyddio ar gyfer recriwtio, marchnata, ymgysylltu gydag eraill ac yn y blaen.
3. Arweinyddiaeth byddwn yn diffinio'r arweinyddiaeth sydd ei hangen i ysbrydoli ac arwain eraill i gyflawni ein diben, cynnal dadansoddiad SWOT o arweinyddiaeth bresennol a dynodi'r bwlch fel y gallwn ddatblygu cynllun i'w bontio.
4. Sgiliau byddwn yn dynodi'r sgiliau (ac ymddygiad) craidd sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol er mwyn cyflawni ein diben, cynnal dadansoddiad SWOT o sgiliau presennol, dynodi'r bwlch a datblygu cynllun i'w bontio.

Bydd Caroline, Phillipa a finnau yn mynychu'r cyfarfod o Gadeiryddion Grwpiau ac Is-gadeiryddion Cyflenwi Strategol fore dydd Gwener a byddwn yn rhannu'r cynnydd a wnaethom hyd yma, ac edrych sut mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion y grwpiau eraill. Byddwn yn rhoi adborth i chi.

Gan ein bod yn cyfarfod yn swyddfeydd Tai Sir Fynwy, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i glywed gan John Keagan (Prif Swyddog Gweithredol) a chlywed ei farn ar rôl Adnoddau Dynol. Roedd yn ddiddorol cymharu hyn gyda barn Ian Thomas (Prif Swyddog Gweithredol, Trivallis) yn ein cyfarfod diwethaf. Byddwn yn parhau gyda hyn drwy ofyn i Brif Swyddog Gweithredol siarad ym mhob cyfarfod fel y gallwn adeiladu ein gwybodaeth o farn a gaiff ei rhannu/gwahaniaeth barn gan sicrhau ein bod yn lleoli ein hunain fel grŵp galluogi a all, ac a ddylai, chwarae rôl allweddol yng nghyfeiriad strategol Tai.

Gyda hyn dan sylw fe wnaethom estyn gwahoddiad munud olaf i Stuart Ropke (Prif Swyddog Gweithredol CHC) fel y gallem drafod argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bod Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau fod y broses gosod cyflogau yn gadarn a bod datgeliad priodol o dâl uwch reolwyr Cymdeithasau Tai. Mae Ian Williams (Llywodraeth Cymru) yn mynychu cyfarfod y Prif Swyddogion Gweithredol i drafod tryloywder ac atebolrwydd a chlywsom y bydd yn rhannu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi cyflogau uwch, gan roi cyfle i'r Prif Swyddogion Gweithredol ddylanwadu ar syniadau Llywodraeth Cymru ar hyn. Roedd yn amlwg i ni y

gall Adnoddau Dynol gefnogi'r trafodaethau hyn drwy roi data, gwybodaeth ac opsiynau i'r grŵp Prif Swyddogion Gweithredol. Felly derbyniodd Stuart ein cynnig i baratoi papur ar hyn, a chytunodd Donna, Phillipa a finnau arwain ar hynny. Byddwn yn rhannu hyn gyda chi fel y gallwch ei drafod gyda'ch Prif Swyddog Gweithredol cyn eu cyfarfod.

Dyddiadau pwysig i'ch dyddiadur

- 2 a 3 Mai Cynhadledd Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu, Abertawe
- 20 Medi Cyfarfod Grŵp Cyflenwi Strategol Adnoddau Dynol, yn y Gogledd

Anfonir mwy o fanylion atoch am y digwyddiadau hyn. Gobeithiaf yn fawr y gallwch ddod draw a pharhau i fod yn rhan o fudiad Adnoddau Dynol Tai (!).

Dymuniadau gorau

Maxine